**Safonau'r Gymraeg - Dogfen bolisi**

**Dŵr Cymru Welsh Water**

## 1. Cyflwyniad

Ers 2001, mae Dŵr Cymru wedi bod yn eiddo i Glas Cymru, cwmni un pwrpas heb unrhyw gyfranddalwyr. O dan berchnogaeth Glas Cymru, nod unswydd Dŵr Cymru yw darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth o'r safon uchaf ar gyfer y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ac amddiffyn yr amgylchedd.

Mae Dŵr Cymru'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer 1.3 miliwn o gartrefi a safleoedd busnes ar draws ein hardal weithredu yng Nghymru a Sir Henffordd. Rydyn ni'n gwasanaethu tua 3 miliwn i gwsmeriaid i gyd.

Mae pencadlys y cwmni yn Llaneirwg, ac mae yna swyddfeydd a safleoedd gweithredu eraill ar draws Cymru.

Nod Dŵr Cymru yw darparu gwasanaeth o safon gydradd uchel ar gyfer ei gwsmeriaid trwy gyfrwng y ddwy iaith.

## 2. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

Pan fydd Dŵr Cymru yn cynllunio ac yn llunio polisïau neu fentrau newydd, bydd yn asesu'r goblygiadau ieithyddol. Bydd y cwmni'n defnyddio polisïau a mentrau newydd i hwyluso defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd, ac i weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle posibl.

**2.1**

Ein nod yw darparu gwasanaeth dibynadwy a chyson yn unol â'r safonau ar draws pob adran a maes gwasanaeth.

**2.2**

Tynnir sylw'r holl gyflogeion at y safonau trwy'r holl sianelau cyfathrebu mewnol arferol, gan gynnwys sesiynau briffio timau, newyddlenni ac erthyglau cyfathrebu mewnol.

**2.3**

Mae Dŵr Cymru'n croesawu cysylltiadau yn Gymraeg neu Saesneg, a'i nod yw darparu gwasanaeth o safon gydradd effeithiol yn y ddwy iaith. Caiff yr egwyddor o gyflawni gwasanaeth o safon gydradd uchel yn y ddwy iaith ei datgan mewn dogfennau allweddol fel adroddiadau blynyddol, adroddiadau i gwsmeriaid, cynlluniau busnes a dogfennau polisi.

**2.4**

Bydd y Cynllun Gwarantu Safonau Gwasanaeth yr un mor berthnasol yn union i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 3. Delio â chwsmeriaid

Croeso i gwsmeriaid ohebu â Dŵr Cymru yn Gymraeg neu Saesneg, a chedwir cronfa ddata o gwsmeriaid y mae'n well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ar system filio Dŵr Cymru.

**3.1**

Er mwyn hwyluso gohebu â chwsmeriaid yn Gymraeg, bydd adran Gyfathrebu'r cwmni'n cynnal rhestr o gyfieithwyr cymeradwy ac yn ei ryddhau i gyflogeion.

## 4. Delwedd gorfforaethol

Bydd Dŵr Cymru'n mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog ac yn gweithredu o dan yr enw Dŵr Cymru Welsh Water.

## 5. Gweithredu a monitro

Mae Cyfarwyddwyr Dŵr Cymru'n hollol ymwybodol o ofynion y safonau, byddant yn sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau y mae Dŵr Cymru a'i gontractwyr yn eu darparu ar gyfer cwsmeriaid, a byddant yn sicrhau bod holl gyflogeion Dŵr Cymru'n ymwybodol o ofynion y cynllun hwn.

**5.1**

Caiff cydymffurfiaeth â'r safonau ei fonitro gan Banel Cymraeg y cwmni. Bydd y Panel yn monitro ac yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol. Y Panel sy'n gyfrifol am gydlynu'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg, ond yr holl reolwyr sy'n gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny sy'n berthnasol i'w meysydd busnes nhw.